

YMARFER 10: Sylwadau

Our Race Equality Charter aims to improve the representation, progression and success of minority ethnic staff and students within higher education¹.

It provides a framework through which institutions work² to identify and self-reflect on institutional and cultural barriers standing in the way of minority ethnic staff and students³. Member institutions develop initiatives and solutions for action⁴, and can apply for a Bronze or Silver award, depending on their level of progress.

The charter is based on five fundamental guiding principles:

1. Racial inequalities are a significant issue⁵ within higher education. Racial inequalities are not necessarily overt, isolated incidents. Racism is an everyday facet of UK society⁶ and racial inequalities manifest themselves in everyday situations, processes and behaviours.
2. UK higher education cannot reach its full potential unless it can benefit from the talents of the whole population and until individuals from all ethnic backgrounds can benefit equally from the opportunities it affords.
3. In developing solutions to racial inequalities, it is important that they are aimed at achieving long-term institutional culture change, avoiding solutions which aim to change the individual⁷.
4. Minority ethnic staff and students are not a homogenous group⁸. People from different ethnic backgrounds have different experiences of higher education, and that complexity needs to be considered when analysing data and developing actions.
5. All individuals have multiple identities⁹, and this should be considered wherever possible.

By signing up to our Race Equality Charter, institutions are committing to following these principles in their approach to race equality.

[addasiad o ddeunydd ar wefan *Equality Challenge Unit*]

1. Cywair/
Ystyr

...minority ethnic staff and students within higher education.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...staff a myfyrwyr o fewn addysg uwch sydd o gefndir ethnig lleiafrifol.*
2. *...staff a disgyblion ethnig lleiafrifol o fewn addysg uwch.*
3. *...staff ethnig lleiafrifol a myfyrwyr o fewn addysg uwch.*
4. *...staff a myfyrwyr lleiafrifol mewn addysg uwchraddol.*
5. *...staff a myfyrwyr o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn y maes addysg uwch.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...staff a myfyrwyr o leiafrifoedd ethnig mewn addysg uwch.*

SYLWADAU:

1. Mae '**minority ethnic**', sef *lleiafrifoedd ethnig*, yn ymadrodd y byddai disgwyl i gyfieithydd ddod ar ei draws yn ystod ei waith, ac felly'n gyfarwydd.

Mae Afl.1 yn cyfleu bod gan addysg uwch gefndir ethnig lleiafrifol.

2. Nid yw Afl. 2 wedi deall hyd yn oed mai at addysg uwch y cyfeiria'r darn, ac na fyddai *disgyblion* yn gywir yn y cyd-destun hwnnw.

3. Yn aml iawn, bydd brawddeg Saesneg yn cynnwys rhestr o enwau gydag ansoddair yn rhagflaenu'r enw cyntaf. Mae'n anodd gwybod weithiau a yw'r ansoddair yn cyfeirio at bopeth, e.e. '*pine tables and chairs*'. Mewn achosion o'r fath bydd angen holi'r awdur, neu chwilio am gliwiau yn y darn. Yn y dyfyniad uchod, roedd yn glir o gyd-destun y darn fod 'lleiafrifoedd ethnig' yn cyfeirio at y staff a'r myfyrwyr fel ei gilydd, ac felly mae ystyr Afl.3 yn anghywir.

4. Mae 'addysg uwch' yn ymadrodd cyffredin iawn, a chyfarwydd, felly mae'r ansoddair *uwchraddol* yn Afl.4 yn annerbyniol.

5. Yn Afl.5 'ym maes addysg uwch' fyddai'n gywir yn hytrach nag *yn y maes addysg uwch*.

2. Ystyr/
Cystawen

It provides a framework through which institutions work...

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Mae'n darparu fframwaith y gall sefydliadau gweithio trwyddo...*
2. *Mae'n darparu fframwaith drwy hynny y mae sefydliadau yn gweithio...*
3. *Mae'n darparu fframwaith i sefydliadau ddefnyddio...*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Mae'n darparu fframwaith i sefydliadau ei ddefnyddio...*

2. *Mae'n darparu fframwaith i sefydliadau ei ddilyn...*

SYLWADAU:

1. Cyfieithiad slafaidd iawn sydd yn Afl.1 ac o'r herwydd nid yw'r ystyr yn glir.

2. Mae Afl.2 wedi rhoi cynnig ar gyfieithu'r ystyr ond nid yw *hynny* yn briodol i gyfeirio'n ôl at y goddrych, sef 'fframwaith'. Y dangosolyn priodol yn y darn dan sylw fyddai 'hwn' e.e. 'fframwaith drwy'r hwn...'

3. Mae Afl.3 yn gynnig da, heblaw yr hepgorwyd y rhagenw 'ei' o flaen *ddefnyddio*.

3. **Cystrawen/
Ystyr**

...to identify and self-reflect on institutional and cultural barriers standing in the way of minority ethnic staff and students.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...er mwyn cydnabod a hunan fyfyrrio ar y rhwystrau sefydliadol a diwylliannol o flaen staff a myfyrwyr sydd o gefndir ethnig lleiafrifol.*

2. *...er mwyn nodi ac adfyfyrrio ar rwystrau sefydliadol a diwylliannol sy'n atal y ffordd i staff a myfyrwyr o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.*

3. *...galluogi sefydliadau i adnabod unrhyw rwystrau diwylliannol a sefydliadol allai dramgwyddo myfyrwyr a staff ethnig lleiafrifol, ac yna i fyfyrrio arnynt.*

4. *...i adnabod a hunanystyrio ar rwystrau sefydliadol a diwylliannol y saif yn ffordd staff a myfyrwyr ethnig lleiafrifol.*

5. *...i nodi rhwystrau sefydliadol a diwylliannol y maent yn cyfyngu ar staff a disgyblion ethnig lleiafrifol ac i hunan-fyfyrrio arnynt.*

6. *...i adnabod a myfyrrio ar rwystrau cymdeithasol sy'n atal staff a myfyrwyr o leiafrifoedd ethnig o'u mewn.'*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...er mwyn nodi a hunanfyfyrrio ar rwystrau sefydliadol a diwylliannol y mae staff a myfyrwyr o leiafrifoedd ethnig yn eu hwynebu.*

2. *...i adnabod a hunanfyfyrrio ar y rhwystrau sefydliadol a diwylliannol sy'n faen tramgwydd i staff a myfyrwyr o leiafrifoedd ethnig.'*

3. *...adnabod a hunanfyfyrrio ar rwystrau sefydliadol a diwylliannol sydd yn llesteirio staff a myfyrwyr o leiafrifoedd ethnig.'*

SYLW:

Cyfieithu slafaidd yw'r gwendid pennaf yn y cyfieithiadau aflwyddiannus uchod. Mae'r cyfieithiadau'n glogyrnaidd, a hynny i'r fath raddau nes eu bod bron yn ddiystyr. Dylid meddwl am ystyr y frawddeg yn lle ei chyfieithu air am air. Yng ngeiriau'r Prif Arholwr yn ei hadroddiad: "Rhaid cyfleu ystyr y gwreiddiol yn gywir, wrth gwrs, ond mae'n rhaid gwneud hynny mewn modd

naturiol i'r iaith darged.”

4. Ystyr

Member institutions develop initiatives and solutions for action...

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Mae sefydliadau aelodog yn datblygu gweithrediadau a datrysiadau ar gyfer gweithredu...*
2. *Mae sefydliadau sy'n aelodau o'r siarter yn datblygu mentrau a gweithredu datrysiadau...*
3. *Mae sefydliadau aelod yn datblygu camau ac atebion ar gyfer gweithredu...*
4. *Mae aelodau sefydliadol yn datblygu mentrau a datrysiadau ar gyfer gweithredu...*
5. *Mae sefydliadau ag aelodau'n datblygu mentrau a datrysiadau i'w gweithredu...*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Mae sefydliadau sy'n aelodau yn datblygu mentrau ac atebion i weithredu...*

SYLWADAU:

1. Diffyg meddwl am ystyr y darn sy'n gyfrifol am yr enghreifftiau aflwyddiannus uchod. Dweud y mae'r darn fod y sefydliadau sy'n aelodau o'r Siarter yn datblygu mentrau ac atebion i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb hiliol.
2. Nid yw Afl.1 yn gwneud synnwyr o gwbl. Dyma enghraifft o gyfieithu slafaidd.
3. Er bod rhediad y frawddeg yn Afl.2 yn dda, cafodd yr ystyr ei newid tua'r diwedd.
4. Nid yw *sefydliadau aelod* yn gwneud synnwyr yn Afl.3, ac nid yw *camau* yn briodol fel cyfieithiad o 'initiatives'.
5. Mae Afl.4 ac Afl.5 hefyd wedi ystumio'r ystyr yn llwyr: 'institutional members' a ddywed Afl.4, ac 'institutions with members' a ddywed Afl.5.

5. Cywair

...significant issue...

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...mater arwyddocaol...*
2. *...pwnc arwyddocaol...*
3. *...problem arwyddocaol...*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...problem fawr...*
2. *...problem sylweddol...*

SYLWADAU:

1. Diffyg meddwl am y darn yn ei gyd-destun sydd wrth wraidd y gwendid hwn o ran cywair. Nid problem o 'arwyddocâd' oedd ystyr y Saesneg ond *mawr* neu *sylweddol*.
2. Mae angen bod yn ofalus wrth gyfieithu 'issue' hefyd. Weithiau, fel yn y darn hwn, mae'n glir mai *problem* yw'r ystyr yn hytrach na *mater*.

6. Cywair/Ystyr **Racism is an everyday facet of UK society...**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Mae hiliaeth yn ffased beunyddiol o fewn y gymdeithas Brydeinig...*
2. *Mae hiliaeth yn agwedd bob dydd o gymdeithas y DU...*
3. *Mae hiliaeth yn rhan annatod o gymdeithas y DU...*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Mae hiliaeth yn elfen feunyddiol o gymdeithas yn y DU...*
2. *Mae hiliaeth yn rhan o fywyd bob dydd yng nghymdeithas y DU...*
3. *Mae hiliaeth yn nodwedd gyffredin yng nghymdeithas y DU...*

SYLWADAU:

1. Nid yw Afl.1 wedi mynd ati i feddwl am ystyr 'facet', gan ddewis cyfieithiad slafaid ohono sy'n amhriodol i gywair y darn.
2. Sylwer hefyd ar *y gymdeithas Brydeinig*. Mae dwy broblem yma. Yn gyntaf, nid yr un peth yw'r Deyrnas Unedig (UK) â Phrydain (Britain), ac felly mae cyfeirio at 'Brydain' yn anghywir yma. Yn ail, mae dweud *y gymdeithas Brydeinig* yn cyfleu 'the British association', yn hytrach na chymdeithas yn gyffredinol.
3. Nid yw'r ystyr yn Afl.2 yn taro deuddeg, nac ychwaith yn Afl.3, sydd wedi ymlwybro'n rhy bell o ystyr y gwreiddiol.

7. Cystrawen/ Ystyr **...avoiding solutions which aim to change the individual.**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...osgoi datrysiadau sy'n pwysleisio ar newid yr unigolyn.*
2. *...osgoi strategaethau sy'n ceisio newid yr unigolyn.*
3. *...osgoi datrysiadau sy'n anelu i newid unigolion.*
4. *...osgoi datrysiadau y maent yn ceisio newid yr unigolyn.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...osgoi datrysiadau sydd â'r nod o newid yr unigolyn.*
2. *...osgoi atebion sy'n anelu at newid unigolion.*

SYLWADAU:

1. Mae Afl.1 wedi camliwio'r ystyr yn llwyr, ac mae'r gystrawen yn Afl.4 mor garbwl fel nad yw'r ystyr yn ddealladwy.

2. Yn Afl.2 mae *strategaethau* am 'solutions' yn rhy bell o ystyr y gwreiddiol.

3. Sylwer ar yr arddodiad 'i' yn Afl.3. *Anelu at* sy'n gywir, nid *anelu i*. Gweler 'Pa Arddodiad?', D.Geraint Lewis, am restr ddefnyddiol o arddodiaid.

8. Cywair

Minority ethnic staff and students are not a homogenous group.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...grŵp cydryw*
2. *...grŵp unffurf*
3. *...grŵp o bobl unffurf*
4. *...grŵp homogenaidd*
5. *...grŵp unfath*
2. *...grŵp unigol*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Nid yw staff a myfyrwyr o leiafrifoedd ethnig i gyd yr un fath.*

SYLW:

1. Nid oes yr un o'r cynigion aflwyddiannus am '**homogenous group**' yn gywir, nac yn cyfleu ystyr y gwreiddiol. Dyma enghraifft sy'n dangos i'r dim yr angen am gamu'n ôl a meddwl am ystyr ymadrodd yn hytrach na'i gyfieithu'n slafaidd. Cymharwch hwy â'r enghraifft llwyddiannus sydd, drwy aralleirio, yn cyfleu ystyr y gwreiddiol yn gwbl glir.

9. Cystawen/ Ystyr

All individuals have multiple identities...

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Mae gan bob unigolyn mwy nag un hunaniaeth...*
2. *Mae gan bob unigolyn sawl hunaniaeth gwahanol...*
3. *Mae pob unigolyn efo nifer o rannau gwahanol i'w cymeriad...*
4. *Mae gan bob unigolyn hunaniaeth amryfal...*
5. *Mae gan bob unigolyn hunaniaeth unigol...*
6. *Mae gan bob unigolyn hunaniaethau lluosol...*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Mae gan bob unigolyn sawl hunanieth...*
2. *Mae gan bob unigolyn fwy nag un hunanieth...*

SYLWADAU:

1. Yn Afl.1, rhaid treiglo'r adferf *mwy* yn feddal, fel yn yr ail enghraifft llwyddiannus uchod, am ei fod yn ddibeniad i'r arddodiad 'gan'. (Gweler *Gramadeg y Gymraeg*, Peter Wynn Thomas, t.433).

2. Yn Afl.2, byddai angen treiglo *gwahanol* yn feddal am fod

'hunaniaeth' yn fenywaidd, ond nid oes galw am ddefnyddio'r gair *gwahanol* o gwbl.

3. Mae'r gystrawen yn Afl.3 yn amhriodol ac mae'r arddodiad *efo* yn rhy llafar ar gyfer darn o'r math yma. Nid yw'r enghraifft hon yn cyfleu neges y gwreiddiol.

4. Mae Afl.4, Afl.5 ac Afl.6 hwythau wedi camliwio'r ystyr yn llwyr drwy ddefnyddio ansoddair amhriodol. Ystyr *amryfal* yw 'o wahanol fathau', ac nid yw'n briodol i gyfieithu '**multiple**'. Mae *unigol* yn Afl.5 yn wall amlwg, ac felly hefyd *lluosol* ('*multiplying*') yn Afl.6. Hyd yn oed o ddefnyddio'r ffurf gywir, 'lluosog', byddai *sawl hunaniaeth* neu 'nifer o hunaniaethau' yn ddewis mwy naturiol.

CYFFREDINOL

Cywirdeb

Cafwyd llawer o wallau sillafu, gwallau teipio a gwallau camdreiglo:

- *Plant hÿn y gymryd rolau*
- *Plant hyn* (yn lle 'hÿn')
- *Oherwydd ddylanwad*
- *y ddigon*
- *dychymig*
- *anfoddus* ('anffodus')
- *cydraddoldeb hiliau* (yn lle 'hiliol')

SYLW:

Oherwydd mai gwallau teipio yw llawer o'r rhain, byddai golygu gofalus a defnyddio gwirydd sillafu wedi amlygu'r mwyafrif ohonynt.